

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

Os yw'ch plentyn yn gymwys i gael cludiant a bydd yn teithio ar gludiant ysgol / coleg ym mis Medi 2020, dyma rai pwyntiau perthnasol ynglŷn â theithio i'r ysgol. Yn ogystal, rydym yn gofyn am eich help i annog plant i feddwl am bobl eraill ac ymddwyn yn gyfrifol wrth deithio o'r cartref i'r ysgol/addysg bellach.

- Argymhellir y dylai disgyblion wisgo gorchudd wyneb ar gludiant pwrpasol o'r cartref i'r ysgol. Fodd bynnag, bydd angen i blant dros 11 oed sy'n teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus arferol wisgo gorchudd wyneb yn unol â'r Rheoliadau. Credwn fod hyn yn briodol oherwydd:
 - bod y risg cyffredinol i ddysgwyr o COVID-19 yn isel iawn
 - nid ydyn nhw'n cymysgu â'r cyhoedd ar y siwrneiau hynny
 - bod cludiant ysgol pwrpasol o'r cartref i'r ysgol yn cario'r un grŵp o ddysgwyr yn rheolaidd
 - bydd natur ragweladwy'r teithiau, sydd ddim mor wir ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn galluogi rhoi cynlluniau ar waith i sefydlu mesurau diogelu
 - prinder tystiolaeth ynglŷn ag unrhyw fudd sylweddol o ddefnyddio gorchuddion wyneb o'i gymharu â'r risgiau posibl o'u defnyddio a'u gwaredu yn anghywir.
- Gofynnir i ddisgyblion sy'n teithio ar fysiau ysgol eistedd mewn ardaloedd eistedd grŵp penodol.
- Ni ddylai unrhyw un deithio ar gludiant pwrpasol i'r ysgol os oes ganddyn nhw neu aelod o'u teulu unrhyw un o bedwar symptom COVID-19 a nodwyd (peswch parhaus newydd, tymheredd uchel neu golli synnwyr blasu neu golli synnwyr arogli).
- Ni ddylai unrhyw un deithio ar gludiant ysgol pwrpasol os ydyn nhw mewn cartref sydd angen hunanynysu oherwydd eu bod yn rhan o'r cynllun Profi, Orlhain, Diogelu neu mewn cwarantŷn os ydyn nhw wedi dychwelyd o wlad a nodwyd gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.
- Os yw dysgwr yn datblygu symptomau yn yr ysgol/yn y lleoliad, dylai gael ei anfon gartref. Fodd bynnag, ni ddylai deithio adref ar gludiant ysgol pwrpasol. Bydd yr ysgol neu'r lleoliad yn cysylltu â rhiant/gofalwr a dylai'r rhiant/gofalwr wneud trefniadau ar gyfer cludo'r dysgwr gartref.
- Dylai dysgwyr lanhau eu dwylo, cyn mynd ar gludiant adref i'r ysgol a golchi eu dwylo ar unwaith wrth gyrraedd yr ysgol neu'r cartref, cael gwared â gorchuddion wyneb dros dro mewn bin wedi'i orchuddio neu gadw eu gorchuddion wyneb y gellir eu haildefnyddio'n ddiogel mewn bag plastig.
- Darperir glanweithydd dwylo.
- Mae'r neges 'Ei ddal, ei daflu, ei ddifa' yn bwysig iawn. Bydd ysgolion/colegau yn atgyfnerthu'r neges hon gyda dysgwyr. Dylid annog dysgwyr i gario hancesi papur gyda nhw bob amser.
- Rydym wedi gweithio'n agos â chwmnïau cludiant ysgol a bydd y cerbydau'n cael eu glanhau'n drylwyr ar ddiwedd bob dydd.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â theithio i'r ysgol/ coleg neu ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, mae croeso i chi gysylltu â home2school@conwy.gov.uk neu cyngoriysglion@conwy.gov.uk

Dear Parent/Guardian,

If your child is eligible for transport and will be travelling by school/college transport in September 2020, we would like to make you aware of the following points in regards to school travel. We also ask for your help in encouraging children to think of others and act responsibly when travelling from home to school/further education.

- It is recommended that pupils should wear a face covering on dedicated home to school transport. However, a child over the age of 11 who is travelling on ordinary public transport will need to wear a face covering in line with Regulations. We believe this is appropriate because:
 - The overall risk to learners from COVID-19 is very low.
 - They do not mix with the general public on those journeys.
 - Dedicated home to school transport often carries the same group of learners on a regular basis.
 - The predictability, which public transport does not offer in the same way, will allow for planning so that protective measures can be put in place.
 - The absence of evidence of any substantial benefit from the use of face coverings compared to the potential risks of incorrect use and disposal.
- Pupils travelling on school buses will be asked to sit in dedicated yr group seating areas.
- No-one should board dedicated school transport if they or a member of their household has any of the four identified COVID-19 symptoms (a new continuous cough, a high temperature or loss of taste or smell).
- Anyone in a household that is required to self-isolate as contacts of a case under Test, Trace, Protect (TTP) or in quarantine if returned from a country specified by the Foreign Commonwealth Office should not board dedicated school transport.
- If a learner develops symptoms whilst at school/setting, they should be sent home. However, they must not travel home on dedicated school transport. The school or setting will contact the parent/carer who should make arrangements for the learner's journey home.
- Learners should clean their hands, before boarding home to school transport and wash their hands immediately on arrival at school or home, dispose of temporary face coverings in a covered bin or keep their re-usable face coverings safely in a plastic bag.
- Hand sanitiser will be provided.
- The 'catch it, bin it, kill it' approach is very important. Schools/colleges will be reinforcing this message with learners. Learners should be encouraged to carry tissues at all times.
- We have worked closely with school transport operators where enhanced cleaning will take place at the end of each day.

If you have any questions about back to school/college travel or return to school in September, please contact home2school@conwy.gov.uk or schooladvice@conwy.gov.uk

